NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Profion proffilio tiwmorau i arwain penderfyniadau ar gemotherapi cynorthwyol mewn achosion cynnar o ganser y fron

09 Mai 2024

Gall fod angen cemotherapi ar ôl llawdriniaeth (cemotherapi cynorthwyol) ar rai pobl gydag achos cynnar o ganser y fron. Mae profion proffilio tiwmorau yn edrych ar weithgarwch genynnau mewn samplau o diwmorau ac yn rhoi gwybodaeth ynghylch pa mor debygol yw'r canser o ddychwelyd. Gall canlyniadau'r profion eich helpu chi a helpu eich meddyg i benderfynu a ddylid cael cemotherapi cynorthwyol neu beidio. Os byddwch yn dewis cael prawf, dylai meddyg canser arbenigol (oncolegydd) drafod y canlyniadau a'r opsiynau trin gyda chi.

**Achos cynnar o ganser y fron gyda nodau lymff positif**

Ar gyfer achosion cynnar o ganser y fron derbynnydd estrogen (ER)- neu dderbynnydd progesteron (PR) positif, HER2-negatif sy'n effeithio ar 1 i 3 nod lymff, mae NICE wedi dweud:

- gellir defnyddio EndoPredict, Oncotype DX neu Prosigna wrth ystyried y ffactorau risg glinigol i arwain penderfyniadau ar gemotherapi cynorthwyol ar gyfer:
  - menywod, ond dim ond os ydynt wedi bod trwy'r menopos
  - dynion
  - pobl draws, anneuaidd neu ryngryw, yn dibynnu ar eu proffil hormonaidd.
- Ni ddylid defnyddio MammaPrint.

Os ydych yn ddyn, yn unigolyn traws, anneuaidd neu ryngryw, dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol drafod â chi a yw profion yn addas.

### Achos cynnar o ganser y fron nod lymff negatif a micrometastatig

Ar gyfer achosion cynnar o ganser y fron ER neu PR positif, HER2 negatif nad yw'n effeithio ar y nodau lymff neu lle mae dim ond swm bach iawn o ganser sydd wedi lledaenu i'r nodau lymff (micrometastatig), mae NICE wedi dweud:

- gellir defnyddio EndoPredict, Oncotype DX a Prosigna i arwain penderfyniadau ar gemotherapi cynorthwyol i bobl y mae gan eu canser risg ganolradd o ddychwelyd i ran arall o'r corff.
- Ni ddylid defnyddio MammaPrint ac IHC4+C

Mae'r GIG yn casglu mwy o dystiolaeth ar gyfer EndoPredict, Oncotype DX a Prosigna. Gellir gofyn i chi a ellir casglu manylion o'ch profion a'ch triniaeth fel tystiolaeth. Gallwch ofyn i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio a'i defnyddio.

### A yw'r prawf hwn yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda mae'n gweithio o gymharu â phrofion eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael prawf?
- A allaf ddewis ble i gael y prawf hwn? A allaf gael y prawf hwn yn fy ysbyty neu glinig lleol?
- Pa mor hir y bydd yn rhaid i mi aros am y canlyniadau?
- Sut y byddaf yn cael canlyniadau'r prawf? A fydd apwyntiad dilynol?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalennau gwe y GIG ar ganser y fron mewn menywod a chanser y fron mewn dynion fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall Breast Cancer Now (0808 800 6000), roi cyngor a chymorth i chi.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2025**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-7432-0